WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Er Budd y Cyhoedd – Defnydd o Gronfeydd Ariannol Wrth Gefn – **Cyngor Tref Penmaenmawr**


Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1292A2019-20

Paratowyd yr adroddiad hwn sydd er budd y cyhoedd yn unol ag Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw swyddog, aelod nac unrhyw un arall yn ei gymhwyster unigol nac unrhyw drydydd parti. Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Y sawl a gyflawnodd y gwaith oedd Ian Hughes dan oruchwyliaeth Anthony Barrett.

.

# Cynnwys

Gan weithredu dan drefniadau wedi'u dirprwyo ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiannau o ran rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yng Nghyngor Tref Penmaenmawr.

Nid yw'r Cyngor wedi cynnal sefyllfa ariannol gynaliadwy ac mae wedi dibynnu'n ormodol ar ei gronfeydd wrth gefn i ariannu ei ymrwymiadau gwariant. Bu gan y Cyngor gynlluniau gwariant afrealistig hefyd a methodd â monitro ei wariant yng nghyd-destun adnoddau ariannol a oedd ar gael. Mae wedi gwneud toriadau sylweddol i wariant er mwyn ei roi ei hun yn ôl ar sylfaen ariannol fwy cynaliadwy. Mae rheolaeth ariannol wael y Cyngor yn arwydd o fethiannau ehangach yn ei drefniadau llywodraethu a nodir yn fy adroddiad. Mae'r Cyngor bellach wedi cyflwyno nifer o newidiadau sy'n mynd i'r afael â'r gwendidau a'r methiannau a nodir yn yr adroddiad hwn.

Rwy'n bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio amodol Ffurflen Flynyddol y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19.


## Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Canfyddiadau allweddol 5

Argymhellion 7

Camau nesaf 8

## Adroddiad manwl

Mae trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol y Cyngor yn fater o bryder cyhoeddus 9

Nid yw'r Cyngor wedi cynnal sefyllfa ariannol gynaliadwy ac mae wedi dibynnu'n ormodol ar ei gronfeydd wrth gefn i ariannu ei ymrwymiadau gwariant 10

Mae rheolaeth ariannol wael y Cyngor yn arwydd o fethiannau ehangach nad adroddwyd arnynt yn ei drefniadau llywodraethu 14

Mae'r Cyngor wedi methu â chyllidebu'n briodol ar gyfer ei weithgareddau ariannol ac ni weithredodd ar y pryderon a fynegwyd gan ei archwilydd mewnol 17

Mae angen i'r Cyngor wella cysondeb a thryloywder ei drefniadau caffael 20

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno nifer o newidiadau i fynd i'r afael â'r gwendidau a'r methiannau o ran llywodraethu a nodir yn yr adroddiad hwn 22

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghasgliadau sy'n deillio o'm harchwiliad o gyfrifon Cyngor Tref Penmaenmawr (y Cyngor) ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19. Yn ystod yr archwiliad, canfûm fethiannau arwyddocaol mewn trefniadau llywodraethu a diffygion mewn rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol.

2 Cyhoeddir yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd dan Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf). Rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn i dynnu sylw'r cyhoedd at y methiannau hyn mewn trefniadau llywodraethu a'r diffygion mewn rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yn y Cyngor. Credaf ei bod yn bwysig bod gan y cyhoedd ymwybyddiaeth lawn a phriodol o'r digwyddiadau sy'n ymwneud â'r Cyngor.

3 Rwyf hefyd yn ei hystyried yn briodol rhoi cyfle i'r Cyngor ddangos y camau pwysig a gymerwyd eisoes i wella trefniadau ac i sicrhau bod y risg y bydd methiannau o'r fath mewn trefniadau llywodraethu'n digwydd eto'n cael ei lleihau i'r eithaf. Mae gwersi i'w dysgu nid dim ond gan y Cyngor ond gan yr holl gynghorau cymuned yng Nghymru.

### Cyngor Tref Penmaenmawr

4 Tref a chymuned ym Mwrdeistref Sirol Conwy ar arfordir Gogledd Cymru rhwng Conwy a Llanfairfechan yw Penmaenmawr. Roedd gan y gymuned boblogaeth o 4,353 yn 2011, ac roedd gan y dref ei hun boblogaeth o 2,868. Yn 2017-18, gwariodd Cyngor Tref Penmaenmawr (y Cyngor) £192,171; cafodd y rhan fwyaf o'r gwariant hwn ei ariannu â phraesept a thrwy ddefnyddio balansau. Caiff y praesept ei ariannu trwy dreth gyngor ychwanegol a godir ar drigolion Penmaenmawr.

5 Mae gan y Cyngor 13 o Gynghorwyr. Fe sicrhaodd pob un o'r Cynghorwyr presennol eu seddi'n ddiwrthwynebiad adeg yr etholiad[1]. Mae cyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol sefydlu tri phwyllgor i'r prif Gyngor; Cynllunio, Cyllid ac Adnoddau Dynol. Mae'r Pwyllgor Cynllunio wedi bodoli am beth amser. Cafodd y Pwyllgor Adnoddau Dynol ei ailsefydlu yn gynnar yn 2018 a chafodd y Pwyllgor Cyllid ei ailgyflwyno ym mis Tachwedd 2018.

6 Mae'r Cyngor yn cyflogi Clerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol rhan-amser yn ychwanegol at ddau Warden Balchder Dinesig rhan-amser. Mae'r Clerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol presennol (y cyfeirir ato fel Clerc o hyn allan) wedi bod yn ei swydd ers mis Gorffennaf 2018. Gadawodd y Clerc blaenorol gyflogaeth y Cyngor ym mis Ebrill 2018 a chafodd y rôl ei llenwi ar sail locwm yn y cyfamser.

[1] Deallaf fod un cynghorydd wedi ymddiswyddo yn y cyfnod cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn.

## Fy ngwaith archwilio

7 Mae fy ngwaith archwilio ar gynghorau tref a chymuned yn canolbwyntio fel arfer ar ffurflen flynyddol a gwblheir gan y cynghorau ac a gyflwynir i archwilwyr sy'n gweithio ar fy rhan. Mae'r ffurflen flynyddol yn cynnwys y datganiadau cyfrifyddu blynyddol y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r cyngor eu paratoi a datganiad llywodraethu blynyddol sy'n nodi sut y mae'r cyngor wedi rheoli ei faterion ariannol. Gwneir gwaith archwilio ychwanegol pan ddaw materion i'm sylw yn ystod yr archwiliad.

8 Ym mis Chwefror 2019 adroddodd y wasg leol fod cronfeydd ariannol wrth gefn Cyngor Tref Penmaenmawr 'wedi'u defnyddio bron i gyd' a bod angen toriadau brys i fantoli'r cyfrifon. Cafodd y digwyddiadau a arweiniodd at y sefyllfa hon eu hystyried mewn adroddiad interim a baratowyd gan Bwyllgor Cyllid y Cyngor ar 19 Rhagfyr 2018. Roedd yr adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith nad oedd y Cyngor wedi cadw ei wariant o fewn yr incwm a oedd ar gael ac o ganlyniad bod yr arian a oedd yn y cyfrif banc adneuo wedi cael ei ddefnyddio nes ei fod bron wedi'i ddihysbyddu.

9 Yn fuan wedi i'r gwendidau mewn rheolaeth gyllidebol a threfniadau monitro ddod i'r amlwg, cysylltodd nifer o drigolion Penmaenmawr â mi yn mynegi pryder ynghylch y sefyllfa. Fe wnaeth rhai gohebwyr fynegi eu barn am y gwerth am arian a gafwyd o ganlyniad i amryw benderfyniadau caffael gan y Cyngor hefyd. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi datganiad cyhoeddus sy'n herio honiadau ynglŷn â methiant i roi cyfrif am wariant y Cyngor a bod Cynghorwyr wedi elwa'n bersonol o bwrs y wlad.

10 I gael dealltwriaeth lawn am yr hyn sydd wedi digwydd i gronfeydd wrth gefn y Cyngor, rwyf wedi cynnal adolygiad o gyfrifon y Cyngor ar gyfer y blynyddoedd ariannol o 2013-14 i 2018-19. Mae fy ffocws wedi bod ar yr agweddau ar drefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol y Cyngor sydd wedi cyfrannu at ddihysbyddu'r cronfeydd wrth gefn a mesurau cynni cyllidol dilynol a roddwyd ar waith. Rwyf hefyd wedi edrych ar drefniadau ar gyfer caffael a datganiadau buddiant.

11 Mae canfyddiadau fy archwiliad yn dangos diffygion hirsefydlog o ran llywodraethu, rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yn y Cyngor a chânt eu crynhoi isod. Maent hefyd yn datgelu tensiynau a diffyg parch ac ymddiriedaeth rhwng aelodau o'r Cyngor a'i gilydd nad ydynt o fudd i'w enw da nac o ran darparu gwasanaethau ar gyfer y trigolion. Caiff y canfyddiadau hyn eu hystyried mewn mwy o fanylder yng ngweddill y ddogfen hon.

# Canfyddiadau allweddol

12 Mae'r Cyngor wedi bod yn gwario ar lefel anghynaliadwy dros y tair blynedd ddiwethaf a dim ond am amser cyfyngedig y mae wedi gallu dibynnu ar ei gronfeydd ariannol wrth gefn. Mae'n iawn bod gorwariant y Cyngor yn achos

pryder i'r cyhoedd. Mae wedi ymddiheuro am ei reolaeth ar gyllid cyhoeddus ac mae'n derbyn nad yw hyn yn gyson â'r safonau uchel a ddisgwylir gan gyngor lleol.

13 Rwyf wedi canfod nifer o fethiannau yn nhrefniadau llywodraethu'r Cyngor a gyfrannodd at ei reolaeth ariannol wael, yn fy nhyb i. Mae swyddogion presennol a chyn-swyddogion y Cyngor a'r Cynghorwyr eu hunain yr un mor atebol am y methiannau hyn yn fy marn i. Am y rheswm hwn, nid wyf wedi enwi unrhyw unigolyn yn yr adroddiad hwn.

14 Ni wnaeth y Cyngor graffu digon ar y cyfrifon a'r datganiad llywodraethu blynyddol cyn cymeradwyo'r ffurflen flynyddol. Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn anghyson â'r datgeliadau cadarnhaol y mae'n eu gwneud amdanynt yn ei Gyfrifon Blynyddol. Mae'r datgeliadau hyn, yn fy marn i, yn ffeithiol anghywir ac yn gamarweiniol.

15 Roedd trefniadau'r Cyngor ar gyfer pennu a monitro'r gyllideb yn aneffeithiol ac ni wnaethant ei ddiogelu rhag yr orddibyniaeth ar gronfeydd ariannol wrth gefn a ddilynodd. Nid wyf wedi fy argyhoeddi bod dealltwriaeth briodol am gyfansoddiad ei gronfeydd wrth gefn nac unrhyw reolaethau effeithiol i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n unol â'u dibenion bwriadedig.

16 Fe wnaeth archwilydd mewnol y Cyngor uwchgyfeirio'i bryderon am wendidau yn y trefniadau ar gyfer pennu a monitro'r gyllideb ond fe wnaeth y rhain osgoi sylw'r Cyngor. Yn fy marn i, roedd digon o gyfle i'r Cyngor gymryd camau unioni a chyflwyno rheolaeth ar wariant yn gynnar ac atal argyfwng ariannol.

17 Nid yw trefniadau'r Cyngor i sicrhau datganiadau buddiant priodol yn ddigon tryloyw ac maent yn lleihau hyder y cyhoedd yn ei atebolrwydd. Mae angen i'r Cyngor wella cysondeb a thryloywder ei drefniadau caffael hefyd.

18 Er fy mod wedi canfod diffygion mewn sawl agwedd ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor, nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod aelodau o'r Cyngor wedi elwa'n bersonol o bwrs y wlad. Ar ben hynny, mae'n amlwg bod y Cyngor wedi cydnabod difrifoldeb ei sefyllfa ariannol erbyn hydref 2018 ac wedi dechrau cymryd camau i wella'i reolaeth gyllidebol a threfniadau monitro. Mae fy archwiliad wedi dangos hefyd bod y Cyngor yn parhau i gryfhau ei reolaeth ariannol a'i drefniadau llywodraethu a'i fod yn benderfynol o beidio â chaniatáu i sefyllfa debyg godi eto yn y dyfodol. Rwy'n nodi o adroddiad ariannol y Cyngor ar gyfer mis Mehefin 2019 bod balansau'r Cyngor wedi cynyddu a'u bod yn £52,196 ar ddiwedd mis Mehefin 2019.

19 Yn ychwanegol at y methiannau o ran llywodraethu a nodir uchod rwyf hefyd wedi nodi tensiynau sylweddol o fewn aelodaeth y Cyngor. Defnyddiwyd termau megis 'Cyngor yn gweithredu o fewn Cyngor', 'diwylliant o fwlio', 'pleidleisio fel defaid' a 'cadw gwybodaeth yn ôl' gan Gynghorwyr mewn trafodaethau gyda fy nhîm archwilio. Caiff y sylwadau hyn eu hatgyfnerthu gan amryw gwynion ysgrifenedig a gyflëwyd o fewn a'r tu allan i'r Cyngor mewn perthynas ag ymddygiad aelodau.

20 Nid fy rôl i yw gwneud sylwadau ynghylch dilysrwydd neu annilysrwydd y datganiadau hyn na rhoi'r bai ar unrhyw grŵp neu unigolyn yn y Cyngor am y tensiynau sy'n amlwg o'm harchwiliad. Fe ddwedaf, fodd bynnag, fod y sefyllfa'n

niweidio enw da'r Cyngor a'i bod yn niweidiol i fuddiannau'r gymuned leol. Erfyniaf ar y Cyngor i ategu ei newidiadau i drefniadau llywodraethu ag ymdrechion ehangach i fynd ati drachefn i feithrin ymddiriedaeth a pharch rhwng aelodau a'i gilydd.

# Argymhellion

21 Rwy'n tynnu sylw'r Cyngor at yr wyth argymhelliad canlynol:

Arddangosyn 1: Argymhellion

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Rhaid i'r Cyngor ategu'r newidiadau y mae'n eu gwneud i drefniadau llywodraethu ag ymdrechion ehangach i fynd ati drachefn i feithrin ymddiriedaeth a pharch rhwng aelodau a'i gilydd. |
| A2 | Mae angen trefnu bod copïau o'r ffurflenni blynyddol ar gael i Gynghorwyr gyda phapurau agenda'r cyfarfod y gofynnir iddynt ystyried a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol ynddo. |
| A3 | Mae angen trefnu bod adroddiad yr archwilydd mewnol ar gael i Gynghorwyr gyda phapurau agenda'r cyfarfod y gofynnir iddynt ystyried a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol ynddo. |
| A4 | Dylid darparu adroddiadau chwarterol ar fonitro'r gyllideb ar gyfer Cynghorwyr a'r rheiny'n nodi gwariant gwirioneddol yn erbyn y gyllideb. |
| A5 | Rhaid i'r Cyngor baratoi polisi ar gyfer ei gronfeydd wrth gefn, a hwnnw'n cynnwys lefel isafswm, y diffiniad o unrhyw gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ac adroddiadau chwarterol sy'n nodi gweddill pob cronfa wrth gefn. |
| A6 | Rhaid i Gynghorwyr sicrhau eu bod yn datgelu unrhyw fuddiant personol yn llawn yng nghyfarfodydd y Cyngor a dylai'r cofnodion adlewyrchu'n gywir pwy ddatganodd y buddiant, y rheswm dros wneud hynny, a pha gam a gymerwyd, e.e. wedi ymatal rhag pleidleisio ar fater, wedi gadael siambr y Cyngor. |
| A7 | Dylai cofnodion y Cyngor adlewyrchu'n gywir sut y mae penderfyniadau caffael wedi cael eu gwneud a'u bod yn unol â gofynion Rheoliadau Ariannol newydd y Cyngor. |
| A8 | Dylai'r Cyngor gwblhau arfarniad o anghenion hyfforddi ar gyfer y Clerc a'i aelodau etholedig. Wedyn dylai rhaglen hyfforddi wedi'i blaenoriaethu gael ei pharatoi a'i chymeradwyo yn amodol ar argaeledd adnoddau. |

# Y camau nesaf

22 Mae adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried yr adroddiad hwn yn un o gyfarfodydd llawn y Cyngor o fewn un mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad. Yn y cyfarfod hwnnw, bydd angen i'r Cyngor benderfynu:

- a yw'r adroddiad a/neu'r argymhellion yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau gweithredu;
- a yw'r argymhellion yn yr adroddiad a/neu'r argymhellion yn mynd i gael eu derbyn; a hefyd
- pa gamau (os o gwbl) i'w cymryd mewn ymateb i'r adroddiad a/neu'r argymhellion.

23 Wedyn bydd angen i'r Cyngor baratoi ymateb ysgrifenedig i'r adroddiad a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw gyda mi cyn cyhoeddi ei ymateb yn unol ag adran 25 o'r Ddeddf.



Anthony Barrett

Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol

Hydref 2019

# Adroddiad manwl

## Mae trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol y Cyngor yn fater o bryder cyhoeddus

24 Ym mis Chwefror 2019 adroddodd y wasg leol fod cronfeydd ariannol wrth gefn Cyngor Tref Penmaenmawr 'wedi'u defnyddio bron i gyd'. Roedd yr adroddiad yn y wasg yn amlygu materion a oedd wedi dod i'r amlwg dros y misoedd cyn hynny yn y Cyngor ac wedi'u dwyn ynghyd dan gochl adroddiad interim a baratowyd gan Bwyllgor Cyllid y Cyngor ar 19 Rhagfyr 2018. Er bod yr adroddiad interim yn ddefnyddiol ar gyfer mynd i'r afael â phryderon a godwyd yn ddiweddarach gan y cyhoedd, nid wyf o'r farn ei fod yn ddigonol i egluro cyd-destun llawn y mater wrth dalwyr lleol y dreth gyngor.

25 Ym mis Ionawr 2019 roedd y Cyngor eisoes wedi cyhoeddi hysbysiad cyhoeddus a oedd yn ymateb i'r sylw yn y wasg a'r pryder ymhlith trigolion a mudiadau gwirfoddol a oedd yn cael cyllid ganddo. Ymhlith sylwadau eraill yn yr hysbysiad cyhoeddus fe nodwyd y canlynol:

> 'Mae wedi dod i'r amlwg bod y Cyngor Tref wedi bod yn gwario mwy ar y gymuned leol dros y tair blynedd ddiwethaf nag y mae wedi bod yn ei gael yn ei braesept blynyddol (incwm). I dalu am y gorwariant hwn ar brosiectau lleol, defnyddiwyd arian o gronfeydd wrth gefn y Cyngor. Digwyddodd y trosglwyddiad cyntaf ym mis Tachwedd 2015, a'r olaf ym mis Gorffennaf 2018. Trosglwyddwyd cyfanswm o £100,000 o'r cronfeydd wrth gefn yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn wedi gadael y Cyngor heb nemor ddim cronfeydd ariannol wrth gefn.
>
> Er bod y sefyllfa ariannol bresennol yn destun gofid mawr, fe gododd am fod angen i'r Cyngor wneud penderfyniadau'n rheolaidd ynghylch gwariant ar ddigwyddiadau, elusennau a mudiadau yn y gymuned leol, heb gael gwybodaeth ariannol gywir a chyfoes. Fe arweiniodd hyn at ddiwylliant o haelioni tuag at brosiectau lleol nad oedd cyllid y Cyngor yn gallu eu cynnal. Mae'r Cyngor Tref yn cydnabod bod hyn wedi bod yn wendid ar ei ran ac mae wedi cyflwyno gweithdrefnau newydd cadarn i sicrhau mwy o drosolwg ariannol yn y dyfodol. Mae'r Cyngor Tref yn ymddiheuro'n ddiffuant am ei reolaeth ar gyllid cyhoeddus dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n derbyn nad yw hyn yn gyson â'r safonau uchel a ddisgwylir gan Gyngor lleol. Er gwaethaf ei ddiffygion, hoffai'r Cyngor ddatgan ei fod, trwy gydol y cyfnod, wedi gweithredu er budd trigolion yr ardal.'

26 I gael dealltwriaeth lawn am yr hyn sydd wedi digwydd i gronfeydd wrth gefn y Cyngor, rwyf wedi seilio fy adolygiad ar y blynyddoedd ariannol o 2013-14 i 2018-19. Nid yw hyn yn golygu fy mod wedi edrych ar yr holl drafodion ariannol a gwblhawyd yn ystod y blynyddoedd hyn. Mae'r cyfrifon blynyddol hyn eisoes wedi cael eu harchwilio'n allanol gan BDO fel rhan o gyfundrefn sicrwydd cyfyngedig yr Archwilydd Cyffredinol. Cwblhawyd archwiliad mewnol ar gyfer yr holl flynyddoedd hyn hefyd. Mae fy ffocws wedi bod ar yr agweddau ar drefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol y Cyngor sydd wedi cyfrannu at ddihysbyddu'r cronfeydd wrth gefn a mesurau cynni cyllidol dilynol a roddwyd ar waith gan y Cyngor. Rwyf hefyd wedi edrych ar drefniadau ar gyfer caffael a datganiadau buddiant.

27 Mae'r adran nesaf hon o'm hadroddiad yn crynhoi sefyllfa ariannol y Cyngor rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mehefin 2019.


# Nid yw'r Cyngor wedi cynnal sefyllfa ariannol gynaliadwy ac mae wedi dibynnu'n ormodol ar ei gronfeydd wrth gefn i ariannu ei ymrwymiadau gwariant

## Mae'r praesept y mae Cyngor Tref Penmaenmawr yn ei godi gan dalwyr y dreth gyngor wedi cynyddu o £59,000 yn 2013-14 i fwy na £148,000 yn 2019-20

28 Mae Cyngor Tref Penmaenmawr yn Gyngor gweithgar iawn ac mae'n cefnogi llawer o brosiectau a gwyliau yn y gymuned leol gan gynnwys, ymysg eraill, Pen in Bloom, Light up Pen a'r Ffair Nadolig. I ariannu ei amryw ymdrechion mae'r Cyngor yn cael praesept gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Cyngor Conwy). Caiff y praesept ei ariannu trwy dreth gyngor ychwanegol a godir ar drigolion Penmaenmawr. Mae Arddangosyn 1 isod yn dangos sut y mae'r praesept wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf.

Arddangosyn 1: praesept Cyngor Tref Penmaenmawr rhwng 2013-14 a 2019-20

Mae praesept Cyngor Tref Penmaenmawr wedi cynyddu o £59,000 i fwy na £146,000 rhwng 2013-14 a 2019-20




Ffynhonnell: Cyfrifon blynyddol archwiliedig Cyngor Tref Penmaenmawr

29 Ceir camfarn ymhlith trigolion bod y praesept wedi cael ei gynyddu i ddarparu cyllid i brynu maes parcio gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r cynnydd yn y praesept yn adlewyrchu polisi ehangach gan Gyngor Tref Penmaenmawr i ariannu rhaglen o welliannau i'r dref gan gynnwys cael gwared ar hen barc sglefrfyrddio o'r promenâd. Mae'r Cyngor wedi bod yn ystyried ystod o opsiynau ar gyfer y maes parcio, gan gynnwys ei brynu. Fodd bynnag, penderfynodd yn ddiweddar na fyddai'n bwrw ymlaen ag unrhyw weithred i'w brynu.


## Ers 2013-14, mae gwariant blynyddol y Cyngor wedi cynyddu o £55,000 i fwy na £158,000 ac mae hyn wedi cael ei ariannu'n rhannol trwy ddihysbyddu ei gronfeydd wrth gefn

30 Mae Arddangosyn 2 isod yn dangos sut y mae gwariant y Cyngor wedi cynyddu bob blwyddyn ers 2013. Cafwyd y cynnydd mwyaf rhwng 2013-14 a 2014-15 ar ôl rhaglen o ymgynghori â'r cyhoedd a gynhaliwyd gan y Cyngor ynghylch anghenion a blaenoriaethau. Mae costau prosiectau a grantiau a rhoddion yn nodweddiadol yn rhoi cyfrif am ryw 85% o gyfanswm gwariant blynyddol y Cyngor. Ar gyfer y blynyddoedd 2014-15 a 2015-16 cafodd y gwariant ei ariannu gan yr incwm blynyddol (y praesept yn bennaf). Roedd eitem o incwm eithriadol o £27,781 ym mis Medi 2014 a ddeilliodd o ddiddymu Cwmni Penllan (cwmni datblygu cymunedol lleol).

31 Mae Arddangosyn 2 hefyd yn dangos sut y bu i'r Cyngor wneud defnydd helaeth o'i falensau i ariannu ei wariant yn ystod 2016-17, 2017-18 a 2018-19.

### Arddangosyn 2: incwm a gwariant y Cyngor a'i ddefnydd o falensau dros y pum mlynedd ariannol ddiwethaf

O 2016-17 ymlaen, mae'r Cyngor wedi defnyddio'i falensau i ariannu ei wariant.





Ffynhonnell: Cyfrifon blynyddol archwiliedig Cyngor Tref Penmaenmawr

32 Caiff balansau'r Cyngor eu cynrychioli gan arian a ddelir yng nghyfrifon banc cyfredol ac adneuo'r Cyngor. Mae Arddangosyn 3 isod yn dangos gwerth gostyngol cyfanswm balansau'r Cyngor rhwng 1 Ebrill 2014 ac 1 Ebrill 2019. Mae'r balansau wedi gostwng i £15,527 erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2018-19. Mae hyn yn cynrychioli rhyw 8% o wariant blynyddol y Cyngor.

Arddangosyn 3: balansau diwedd blwyddyn Cyngor Tref Penmaenmawr

Mae balansau ariannol y Cyngor wedi gostwng o frig o fwy na £125,000 ar 31 Mawrth 2016 i lai nag £16,000 ar 31 Mawrth 2019




Ffynhonnell: Cyfrifon blynyddol archwiliedig Cyngor Tref Penmaenmawr

## Er bod y Cyngor wedi bod yn gwario ar lefel anghynaliadwy, nid oedd aelodau'n deall at ba ddiben yr oedd gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn

33 Yn seiliedig ar fy nhrafodaethau gyda'r Cyngor (cynghorwyr a'r clerc presennol a blaenorol) ac adolygiad o'i gofnodion, nid wyf wedi fy argyhoeddi bod dealltwriaeth briodol o gyfansoddiad ei gronfeydd wrth gefn nac unrhyw reolaethau effeithiol i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio yn unol â'i dibenion bwriadedig neu i gymeradwyo newid defnydd. Mae'r wybodaeth sydd ar gael am y symiau a ddelir mewn cronfeydd wrth gefn yn anghyson hefyd.

34 Mae papurau gwaith y Cyngor sy'n egluro'i gyfrifiad cyllidebol ar gyfer 2018-19 yn dangos bod cyfanswm ei gronfeydd wrth gefn yn £95,884 ar 1 Ebrill 2018. Mae papurau'r Cyngor yn nodi bod y cronfeydd hyn wedi'u clustnodi ar gyfer y dibenion penodol canlynol:

Arddangosyn 4: roedd y rhan fwyaf o gronfeydd ariannol wrth gefn y Cyngor wedi cael eu clustnodi ar gyfer dibenion penodol

Roedd bron i 90% o gronfeydd wrth gefn y Cyngor wedi'u clustnodi ar gyfer dibenion penodol

| Diben y gronfa wrth gefn | 31 Mawrth 2016 |
|---|---|
| Promenâd (parc sglefrfyrddio) | £70,000 |
| Cronfa wrth gefn trosglwyddo asedau | £10,000 |
| Cronfa wrth gefn etholiadau | £5,884 |
| Hapddigwyddiadau cyffredinol | £10,000 |
| Cyfanswm cronfeydd wrth gefn | £95,884 |

Ffynhonnell: Crynodeb o gyllideb Penmaenmawr

35 Cafodd y cronfeydd wrth gefn hyn wedi'u clustnodi eu cynnwys yn y ffigwr ar y cyfan ar gyfer balansau a ddygwyd ymlaen o £105,638 a oedd wedi'i gynnwys yng nghyllideb ddiwygiedig 2018-19 a gyflwynwyd i'r Cyngor Tref ym mis Medi 2018.

36 Yn anffodus, mae'r ffigwr ar gyfer balansau a ddygwyd ymlaen o £105,638 a nodwyd yng nghyllideb Medi 2018 wedi'i orddatgan gan bod y ffigwr archwiliedig gwirioneddol ar gyfer balansau a ddygwyd ymlaen yn sylweddol is, sef £45,661 (gweler paragraff 62 am ragor o wybodaeth am hyn). Hefyd, yn ymarferol mae balansau'r Cyngor wedi cael eu defnyddio i ariannu ystod o brosiectau a grantiau gan gynnwys rhai o'r achosion penodol a adlewyrchir uchod yn Arddangosyn 4.

37 Mae'n amlwg o'r dadansoddiad uchod bod y Cyngor wedi bod yn gwario ar lefel anghynaliadwy dros y tair blynedd ddiwethaf a dim ond am amser cyfyngedig y mae wedi gallu dibynnu ar ei gronfeydd ariannol wrth gefn. Rwy'n cytuno â sylw'r Cyngor ei hun ei fod wedi ysgwyddo gwariant 'tuag at brosiectau lleol nad oedd cyllid y Cyngor yn gallu eu cynnal'. Mae bellach wedi cwtogi'n sylweddol ar wariant i'w roi ei hun yn ôl ar sylfaen ariannol fwy cynaliadwy.

38 Rwy'n nodi bod balansau'r Cyngor wedi cael eu cynyddu bellach a'u bod yn £52,196 ar ddiwedd mis Mehefin 2019.

39 Mae'r adran nesaf o'm hadroddiad yn nodi'r rhesymau pam fod y Cyngor wedi methu â chadw ei wariant dan reolaeth.

# Mae rheolaeth ariannol wael y Cyngor yn arwydd o fethiannau ehangach nad adroddwyd arnynt yn ei drefniadau llywodraethu

40 Rwyf wedi canfod nifer o fethiannau yn nhrefniadau llywodraethu'r Cyngor a gyfrannodd at ei reolaeth ariannol wael, yn fy nhyb i. Rwyf hefyd wedi fy argyhoeddi bod cyfleoedd wedi cael eu colli i atal yr argyfwng ariannol rhag gwreiddio. Mae swyddogion presennol a chyn-swyddogion y Cyngor a'r Cynghorwyr eu hunain yr un mor atebol am y methiannau hyn yn fy marn i. Am y rheswm hwn, nid wyf wedi enwi unrhyw unigolyn yn yr adroddiad hwn.

41 Er fy mod wedi canfod diffygion mewn sawl agwedd ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor, nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod aelodau o'r Cyngor na swyddogion presennol na chyn-swyddogion wedi elwa'n bersonol o bwrs y wlad.

## Ni wnaeth y Cyngor graffu digon ar y cyfrifon a'r datganiad llywodraethu blynyddol cyn cymeradwyo'r ffurflen flynyddol

42 Dan Adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, rhaid i'r Cyngor:

- baratoi ei gyfrifon bob blwyddyn hyd at 31 Mawrth neu ba bynnag ddyddiad arall y gall Gweinidogion Cymru ei gyfarwyddo'n gyffredinol neu mewn unrhyw achos arbennig; a
- sicrhau bod ei gyfrifon yn cael eu harchwilio yn unol â Deddf 2004 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.


43 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn nodi'r amserlen ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol:

- rhaid i Swyddog Cyllid Cyfrifol y cyngor baratoi'r cyfrifon ac ardystio eu bod yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r cyngor yn briodol, neu'n rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol ac incwm a gwariant y cyngor. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ariannol yn rhoi llofnod a dyddiad i ddangos ei fod wedi ardystio'r datganiadau ariannol. Darperir ar gyfer llofnod a dyddiad mewn ffurflen flynyddol;
- rhaid i aelodau'r cyngor ystyried y datganiadau cyfrifyddu mewn cyfarfod llawn ac, yn dilyn eu hystyried, cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu ar gyfer eu cyflwyno i'r archwilydd trwy benderfyniad gan y cyngor; ac yn dilyn eu cymeradwyo, sicrhau bod y sawl sy'n llywyddu yn y cyfarfod lle rhoddwyd y gymeradwyaeth honno i'r datganiadau ariannol yn rhoi llofnod a dyddiad arnynt; a
- rhaid cwblhau'r camau hyn erbyn 30 Mehefin yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol.

44 Cyn gynted â phosibl ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo'r ffurflen flynyddol rhaid iddi gael ei hanfon at yr archwilydd allanol. Caiff y broses ei chrynhoi yn Arddangosyn 5 isod:

Arddangosyn 5: mae'r trefniadau ar gyfer y cyfrifon ac archwilio'n dilyn y broses a nodir isod

Mae'r trefniadau ar gyfer y cyfrifon ac archwilio'n dilyn proses sydd wedi'i diffinio




Ffynhonnell: Ffurflen flynyddol Cyngor Tref Penmaenmawr

45 Cyfarfu Cyngor Tref Penmaenmawr a thrafododd ei gyfrifon diwedd blwyddyn ar gyfer 2017-18 a'i ffurflen flynyddol ar 12 Mehefin 2018. Rwyf wedi ei gael ar ddeall bod y Clerc wedi mynd trwy'r cwestiynau sy'n ymwneud â llywodraethu ar y ffurflen flynyddol a bod yr atebion arfaethedig wedi cael eu cytuno gan y Cyngor a'u cofnodi ar y ffurflen. Wedyn fe benderfynodd y Cyngor yn unfrydol ei fod yn derbyn y ffurflen flynyddol ac y byddai'r Clerc yn anfon y gwaith papur ymlaen at yr archwilwyr.

46 Fodd bynnag, ni chafodd y Cynghorwyr gopïau o'r ffurflen flynyddol wirioneddol i'w darllen. Rhan annatod o'r ffurflen hon yw'r adroddiad a'r casgliad gan archwilydd mewnol y Cyngor ei hun. Nid oedd yr adroddiad hwn ar gael ar yr adeg y cyfarfu'r Cyngor ac y cymeradwyodd ei ffurflen flynyddol. Pan gwblhawyd yr adroddiad archwilio mewnol ar 25 Mehefin, fe'i hamodwyd fel a ganlyn:

> 'Ar sail y gwaith archwilio mewnol a wnaed, yn ein tyb ni NID yw system rheolaeth fewnol y Cyngor yn ei lle, yn ddigonol at y diben a fwriadwyd ac yn effeithiol, ac mae angen i'r materion yr adroddir arnynt yn y cynllun gweithredu gael eu rhoi ar waith yn brydlon.'

47 Credaf fod cymeradwyo'r ffurflen flynyddol heb fod wedi gweld adroddiad yr archwilydd mewnol yn fethiant sylweddol a chyfunol ar ran y Cyngor a'i Glerc presennol.

48 Rwyf hefyd wedi adolygu cofnodion cyfarfodydd y Cyngor sy'n berthnasol i'r flwyddyn ariannol flaenorol 2016-17. Nid wyf wedi canfod unrhyw sôn bod y Cyngor wedi trafod a chymeradwyo ei ddatganiad cyfrifon rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin. Mae hyn yn cadarnhau i mi na wnaeth y Cyngor ymgorffori craffu a herio effeithiol fel rhan o'r broses o gymeradwyo'r cyfrifon.

## Mae'r honiadau a wneir gan y Cyngor yn ei ddatganiadau llywodraethu blynyddol yn anghywir ac yn gamarweiniol

49 Yn ogystal â chyflwyno'r cyfrifon ar gyfer blwyddyn benodol, mae'r Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi datganiad ar reolaeth fewnol ochr yn ochr â'r cyfrifon. I ateb y gofyniad hwn, mae'r ffurflen flynyddol yn ymgorffori datganiad llywodraethu blynyddol lle mae'r Cyngor yn gwneud cyfres o honiadau am y trefniadau sydd ganddo ar gyfer ei swyddogaethau llywodraethu a rheolaeth ariannol.

50 Er bod union eiriad y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gallu amrywio o un flwyddyn i'r llall, mae'n cynnwys yr eitemau ('honiadau' neu ddatganiadau am drefniadau llywodraethu'r Cyngor) a nodir yn Arddangosyn 6 (ar gyfer 2017-18) fwy neu lai. Mae Arddangosyn 6 hefyd yn dangos ymateb y Cyngor i'r materion hynny a'm asesiad archwilio ar gyfer 2017-18.

Arddangosyn 6: Datganiad Llywodraethu Blynyddol Cyngor Tref Penmaenmawr ar gyfer 2017-18

Mae chwech allan o'r deg honiad cadarnhaol gan y Cyngor yn ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol yn anghyson â'm hasesiad i o drefniadau'r Cyngor

| Honiad | Ymateb y Cyngor | Asesiad archwilio |
|---|---|---|
| Wedi paratoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu yn briodol | Do | Naddo |
| Wedi cynnal ac adolygu effeithiolrwydd system ddigonol o reolaeth fewnol, gan gynnwys mesurau sydd wedi'u bwriadu i atal a chanfod twyll a llygredigaeth | Do | Naddo |
| Wedi cymryd camau i sicrhau nad oes materion diffyg cydymffurfio â chyfreithiau, rheoliadau a chodau ymarfer | Do | Naddo |
| Wedi rhoi cyfle priodol i'r etholwyr arfer eu hawliau mewn perthynas â'r cyfrifon | Do | Do |
| Wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r cyngor | Do | Naddo |
| Wedi cynnal system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol | Do | Do |

| Honiad | Ymateb y Cyngor | Asesiad archwilio |
|---|---|---|
| Wedi ystyried effaith ariannol unrhyw ymgyfreithiad, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau, digwyddiadau neu drafodion | Do | Heb ei adolygu |
| Cymerwyd camau priodol mewn perthynas ag adroddiadau archwilio mewnol ac allanol | Do | Naddo |
| Wedi ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn a ddelir gan y Cyngor wrth bennu ei gyllideb | Do | Naddo |
| Wedi cynnal cyfrif ar wahân o grantiau a wnaed dan adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 | Do | Do |

Ffynhonnell: Datganiad Llywodraethu Blynyddol Cyngor Tref Penmaenmawr a dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru

51 Dengys Arddangosyn 6 fod fy ngwaith archwilio wedi canfod bod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn anghyson â'r honiadau cadarnhaol y mae wedi'u gwneud yn ei Ddatganiadau Llywodraethu Blynyddol.

52 Ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2013-14 i 2017-18, mae'r Cyngor wedi cwblhau'r ffurflenni ar y sail ei fod yn cydymffurfio â'r disgwyliadau mewn deddfwriaeth a chanllawiau cyhoeddedig. Nid yw wedi amodi ei ymatebion na darparu esboniadau ar feysydd lle mae naill ai'n ddiffygiol neu'n gweithio i sicrhau gwelliannau. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, honni bod ganddo drefniadau priodol ar gyfer pennu a monitro ei gyllideb a bod ganddo gynlluniau priodol ar gyfer defnyddio'r cronfeydd wrth gefn hyn. Yn fy marn i mae'r datgeliadau hyn yn ffeithiol anghywir ac yn gamarweiniol.

# Mae'r Cyngor wedi methu â chyllidebu'n briodol ar gyfer ei weithgareddau ariannol ac ni weithredodd ar y pryderon a fynegwyd gan ei archwilydd mewnol

## Mae'n ofynnol yn gyfreithiol bod y Cyngor yn cyfrifo cyllideb ac yn sefydlu trefniadau priodol i sicrhau rheolaeth ariannol effeithiol

53 Mae Adran 50 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1992 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyfrifo'i ofyniad cyllidebol bob blwyddyn. Wrth gyfrifo'r gofyniad cyllidebol hwn, rhaid i'r Cyngor ystyried:

- y gwariant y mae'n amcangyfrif y bydd yn ei ysgwyddo yn y flwyddyn wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- pa bynnag ddarpariaeth fydd yn briodol yn ôl ei amcangyfrifon ar gyfer hapddigwyddiadau mewn perthynas â gwariant am y flwyddyn;
- y cronfeydd ariannol wrth gefn y bydd yn briodol eu codi yn y flwyddyn yn ôl ei amcangyfrifon i ariannu ei wariant amcangyfrifedig yn y dyfodol; a
- pha bynnag gronfeydd ariannol wrth gefn sy'n ddigonol i ariannu faint bynnag o'r swm y mae'r Cyngor yn amcangyfrif ei fod yn ddiffyg yn y cyfrif refeniw ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol flaenorol na ddarparwyd ar ei gyfer yn barod.

54 Mae Rheoliad 5 yn y Rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod system rheolaeth fewnol gadarn sy'n hwyluso'r broses o arfer swyddogaethau'r corff hwnnw ac sy'n cynnwys rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

## Roedd trefniadau'r Cyngor ar gyfer pennu a monitro'r gyllideb yn aneffeithiol ac ni wnaethant ei ddiogelu rhag yr orddibyniaeth ar gronfeydd ariannol wrth gefn a ddilynodd

55 Rwyf wedi adolygu datganiadau'r Cyngor ar y gyllideb rhwng 2013-14 a 2017-18. Ar gyfer pob un o'r blynyddoedd hyn roedd y Cyngor wedi bwriadu defnyddio'i gronfeydd wrth gefn i helpu i ariannu ei wariant a oedd wedi'i gyllidebu. Fodd bynnag, roedd y gwariant arfaethedig ar gyfer y pum mlynedd hon yn sylweddol uwch na'r incwm a'r cronfeydd wrth gefn a oedd ar gael i'w defnyddio. Roedd cyfanswm y defnydd arfaethedig o falansau rhwng 2013 a 2018 yn £416,858 ac eto dim ond £85,785 oedd balansau gwirioneddol y Cyngor ar 1 Ebrill 2013. Ni wnaeth codiadau yn y praesept ac incwm arall dros y cyfnod hwn fynd i'r afael â'r diffyg. Hefyd, fel a grybwyllwyd yn gynharach, nid oes esboniad clir na chyson sut y bwriedir i gronfeydd wedi'u clustnodi gael eu defnyddio yng nghyllidebau'r Cyngor.

56 Mae system gyfrifyddu gyfrifiadurol y Cyngor wedi'i sefydlu ar y sail bod gwariant yn cael ei gofnodi yn gyson â phenawdau'r gyllideb. Dylai hyn hwyluso'r broses o fonitro'r gyllideb mewn modd amserol. Nid wyf wedi gweld unrhyw adroddiadau monitro a gyflwynwyd i'r Cyngor sy'n dilyn yr arfer hwn. Mae Cynghorwyr wedi dweud wrthyf mai dim ond cyllidebau wedi'u diweddaru yr oeddent yn eu cael gan y Clerc blaenorol, a oedd yn ôl eu dealltwriaeth hwy yn sail i sicrhau bod y Cyngor yn gwario o fewn ei foddion.

57 Mae Cynghorwyr hefyd wedi dweud wrthyf bod ganddynt hwy bryderon ers tro byd ynghylch sgiliau a chymhwysedd y Clerc blaenorol o ran rheolaeth ariannol. Roeddent wedi ceisio mynd i'r afael â hyn trwy gynnig hyfforddiant a chymorth ond yn fwy diweddar roeddent wedi gorfod uwchgyfeirio materion trwy gyflwyno protocol gweithio ffurfiol. Fodd bynnag, dirywiodd y berthynas waith rhwng y Cyngor a'r Clerc blaenorol a phenllanw hyn oll oedd ymadawiad y Clerc blaenorol ym mis Ebrill 2018.

58 Mae'r Clerc blaenorol yn gwrthod y feirniadaeth hon ar sail y canlynol:

- roedd y dirywiad mewn perthnasoedd gwaith i'w briodoli, yn ei dyb ef, i ddrwgdeimlad tuag ato gan nifer fach o Gynghorwyr;
- roedd wedi ei gwneud yn glir ar adeg ei benodi bod ei sgiliau ef ym maes llywodraeth leol a rheoli prosiectau ar ei fod, yn ei farn ef, yn fwy hyfedr ym maes cyllid nag aelodau'r Cyngor;
- aeth ei geisiadau am hyfforddiant heibio'n ddisylw a bu'n rhaid iddo drefnu hynny mewn cymhwyster personol ar ei draul ei hun; ac
- nid oes atgof ganddo o'r 'protocol gweithio ffurfiol' y mae'r Cyngor yn cyfeirio ato.

## Fe wnaeth archwilydd mewnol y Cyngor uwchgyfeirio'i bryderon am wendidau yn y trefniadau ar gyfer pennu a monitro'r gyllideb ond fe wnaeth y rhain osgoi sylw'r Cyngor

59 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl gynghorau tref a chymuned yng Nghymru fod â system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol. Rôl archwilio mewnol yw archwilio nifer o feysydd allweddol o ran trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol y cyngor ac amlygu unrhyw ddiffygion perthnasol.

60 Yn yr archwiliad mewnol ar ddiwedd 2016-17 fe wnaeth archwilydd mewnol y Cyngor[2] hysbysu'r Cyngor am bryderon ynghylch cyllideb y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol, 2017-18. Yn y bôn byddai'r lefel gwariant arfaethedig ar gyfer 2017-18 yn cynnwys defnyddio holl gronfeydd wrth gefn y Cyngor. Ar ben hynny, nododd yr archwilydd fod y rhan fwyaf o gronfeydd wrth gefn y Cyngor wedi cael eu clustnodi ond nad oedd cydberthynas rhwng gwariant arfaethedig a'r defnydd o gronfeydd wedi'u clustnodi. Fe wnaeth yr archwilydd mewnol nifer o argymhellion ar gyfer gwella ond hyd y gwelaf fi ni chafodd y rhain eu rhoi ar waith.

61 Fe uwchgyfeiriodd yr archwilydd mewnol ei bryderon ar ddiwedd archwiliad 2017-18. Roedd y farn archwilio ar y cyfan yn amodol ond codwyd pryderon mwy penodol am gyllideb y Cyngor ar gyfer 2018-19. Nododd yr archwilydd mewnol fod y gwariant a oedd wedi'i gyllidebu'n fwy na'r incwm a'r cronfeydd wrth gefn i'w ariannu. Fel a eglurwyd uchod, rhaid i gynghorau lleol bennu a chymeradwyo cyllideb fantoledig yn flynyddol yn ôl y gyfraith. Roedd yr adroddiad yn cynnwys y datganiad canlynol mewn inc trwm:

> 'Felly nid oes gan y Cyngor incwm a chronfeydd wrth cefn wedi'u cyllidebu i ariannu'r gwariant sydd wedi'i gyllidebu ganddo ar gyfer y flwyddyn'.

62 Nododd yr archwilydd mewnol hefyd fod anghysondeb perthnasol rhwng y cronfeydd wrth gefn a oedd wedi'u cyllidebu ar 1 Ebrill 2018 (£105,638) o'i gymharu â'r cronfeydd wrth gefn gwirioneddol a nodwyd yn y cyfrifon diwedd

[2] Dyddiad adroddiad yr archwilydd mewnol yw 31 Mai 2017.

blwyddyn ar gyfer 2017-18 (£45,661). Fe atgyfeiriodd y Clerc newydd yr adroddiad hwn at Gynghorydd a oedd wedi cynorthwyo'r Clerc blaenorol gyda chyfrifon y Cyngor gan gynnwys paratoi'r gyllideb. Y canlyniad oedd paratoi cyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2018-19 a gyflwynwyd i'r Cyngor pan gyfarfu ar 4 Medi 2018. Yn anffodus, roedd y gyllideb ddiwygiedig a gyflwynwyd i'r Cyngor yn dal i gynnwys y ffigwr anghywir ac wedi'i or-ddatgan, sef £105,638, ar gyfer balansau agoriadol, a hwythau'n sylweddol is, sef £45,661. Mae'r mater hwn wedi cael eu egluro gan y bobl gysylltiedig fel 'gwall anffodus' .

63 Crybwyllais yn gynharach fod y Cyngor wedi cymeradwyo'i Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2017-18 pan gyfarfu ar 12 Mehefin 2018. Fe wnaeth hynny heb fod wedi gweld yr adroddiad archwilio mewnol dilynol a gwblhawyd ar 25 Mehefin 2018. Yn yr un modd, pan gyfarfu'r Cyngor ar 4 Medi 2018 i drafod a chymeradwyo'r gyllideb ddiwygiedig, fe wnaeth hynny heb fod wedi gweld cynnwys adroddiad yr archwilydd mewnol.

64 Yng ngoleuni'r uchod, yn fy marn i roedd digon o gyfle i'r Cyngor gymryd camau unioni a chyflwyno rheolaeth ar wariant yn gynnar ac atal argyfwng ariannol.

# Mae angen i'r Cyngor wella cysondeb a thryloywder ei drefniadau caffael

## Mae trigolion wedi mynegi pryderon ynghylch prosesau caffael y Cyngor

65 Yn fuan wedi i'r gwendidau mewn rheolaeth gyllidebol a threfniadau monitro ddod i'r amlwg, cysylltodd nifer o drigolion Penmaenmawr â mi yn mynegi pryder ynghylch y gwerth am arian a gafwyd o ganlyniad i amryw benderfyniadau caffael gan y Cyngor hefyd. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch dewis contractwyr ar gyfer gwaith a pha un a oedd buddiannau personol Cynghorwyr yn cael eu datgan wrth roi cymorth ariannol. Un mater a godwyd yn fynych oedd y berthynas rhwng y Cyngor Tref a grŵp gwirfoddol lleol arall, Pen in Bloom. Mae rhai aelodau o'r Cyngor ar Bwyllgor Pen in Bloom, sy'n cael cyllid gan y Cyngor trwy gydol y flwyddyn, hefyd.

## Nid yw trefniadau'r Cyngor ar gyfer datganiadau o fuddiannau'r aelodau'n ddigon tryloyw

66 Rwyf wedi adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer datgan buddiannau personol ac wedi cael nad ydynt yn ddigon tryloyw. Y diffyg tryloywder hwn ysgogodd lawer o'r pryderon a gyflëwyd i mi gan drigolion sydd wedi dibynnu ar gofnodion y Cyngor, a gyhoeddwyd ar wefan y Cyngor, i weld a wnaed datganiadau buddiant priodol.

67 Cyhoeddir rhestr o fuddiannau'r Cynghorwyr trwy wefan y Cyngor a chafodd hon ei diweddaru'n ddiweddar. Hefyd, ar ddechrau pob un o gyfarfodydd y Cyngor mae

eitem sefydlog ar yr agenda, 'Cod Ymddygiad/Datgan Buddiannau'. Y disgwyliad yw bod Cynghorwyr a all fod â buddiant mewn eitem sydd i'w drafod yn gofyn i'r Clerc am ffurflen i'w defnyddio i ddatgan buddiant. Mae'r Clerc yn cadw ffeil o'r holl ffurflenni datgan buddiant a gwblhawyd, y gall pobl sydd â diddordeb ei harchwilio os ydynt yn dymuno. Fodd bynnag, nid yw cofnodion cyfarfodydd y Cyngor yn dangos a wnaeth Cynghorydd ofyn am ffurflen a'i chwblhau dan yr eitem hon ar yr agenda. Nid yw'r cofnodion yn dangos pa gam gweithredu a gymerir mewn perthynas â'r eitem sefydlog hon. Mae gohebwyr sy'n dibynnu ar y cofnodion yn dod i'r casgliad dealladwy ond anniogel nad oes unrhyw fuddiannau wedi cael eu datgan ar ddechrau cyfarfod y Cyngor.

68 Mae cofnodion y Cyngor hefyd yn adlewyrchu datganiadau buddiant pan fo penderfyniadau'r Cyngor yn cael eu gwneud, e.e. i gymeradwyo taliad neu restr o daliadau. Fodd bynnag, fel gyda'r eitem sefydlog ar yr agenda y cyfeiriwyd ati uchod, nid yw'r broses yn ddigon tryloyw. Mae'r cofnodion yn adlewyrchu pan fo Cynghorydd yn ymatal rhag pleidleisio ar benderfyniad. Fodd bynnag, nid ydynt wastad yn datgelu pwy yw'r Cynghorydd nac yn egluro pa fuddiant sy'n cael ei ddatgelu. Nid wahaniaethir bob amser rhwng ymatal rhag pleidleisio oherwydd buddiant personol yn yr eitem ac ymatal am resymau eraill. Mae'r Cyngor wedi derbyn y canfyddiadau hyn ac yn awr mae'n sicrhau mwy o dryloywder mewn datganiadau buddiant yn y cofnodion a gyhoeddir.

## Nid yw'r Cyngor yn gallu dangos ei fod wedi cydymffurfio â'i reoliadau ariannol ei hun mewn perthynas â chaffael

69 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu rheoliadau ariannol ar gyfer rheolaeth ariannol y Cyngor. Mae'r Rheoliadau Ariannol yn darparu canllawiau gweithdrefnol ar gyfer aelodau a swyddogion a rhaid ymlynu wrthynt ar y cyd â rheolau sefydlog y Cyngor. Caiff trefniadau'r Cyngor ar gyfer caffael eu nodi yn ei Reoliadau Ariannol. Ar gyfer y cyfnod y mae a wnelo'r archwiliad ag ef, y Rheoliadau Ariannol perthnasol oedd y rhai a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Hydref 2015. Yr elfennau allweddol mewn perthynas â thendrau a dyfynbrisiau oedd:

- ar gyfer contractau y mae eu gwerth yn fwy na £50,000 byddai'r Clerc yn gwahodd tendrau gan o leiaf dri chwmni sydd wedi'u cynnwys ar y rhestr gymeradwy briodol (mae'r rhan fwyaf o weithgarwch caffael y Cyngor islaw'r trothwy hwn);
- pan fo'n bwriadu ymrwymo i gontract y mae ei werth yn llai na £50,000 ar gyfer cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau neu ar gyfer cyflawni gwaith neu ddarparu gwasanaethau arbenigol dylai'r Clerc neu'r Swyddog Cyllid Cyfrifol gael tri dyfynbris.
- pan fo'r gwerth yn is na £1,000 ac yn uwch na £300 dylai'r Clerc geisio cael tri amcan bris. Ni ddylai'r Cyngor fod dan orfodaeth i dderbyn yr isaf o unrhyw dendr, dyfynbris neu amcan bris.

- lle mae'r swm yn llai na £300 byddir yn pleidleisio ar swm penodol i'r Clerc gyflawni'r dasg ofynnol. Wedyn dirprwyir cyfrifoldeb iddo geisio'r gwerth gorau am arian o fewn y swm hwnnw.

70 Rwyf wedi bwrw golwg ar hanes caffael y Cyngor dros y ddwy flynedd ddiwethaf trwy gyfeirio at yr holl daliadau a gymeradwywyd gan y Cyngor fel a nodir yng nghofnodion cyfarfodydd. Er bod cyfeiriadau achlysurol at achosion lle mae'r Clerc wedi cael un neu ddau ddyfynbris ar gyfer eitem, ar y cyfan nid wyf wedi gallu fy argyhoeddi fy hun bod y gofynion a nodir yn ei Reoliadau Ariannol wedi cael eu hateb. Nid wyf wedi gweld unrhyw gyfeiriad yn y cofnodion at bleidleisiau gan Gynghorwyr ar swm penodol i gyflawni'r dasg ofynnol. Dylai cofnodion y Cyngor adlewyrchu'n gywir sut y cafodd penderfyniadau caffael eu gwneud a'u bod yn unol â gofynion Rheoliadau Ariannol newydd y Cyngor.

71 Fe wnaeth y Cyngor ddiweddaru ei Reoliadau Ariannol ym mis Rhagfyr 2018 ac mae'n derbyn bod angen cyflwyno mwy o drylwyredd a thryloywder yn ei gofnodion. Bydd yn gweithredu ar hyn yn awr ynghyd â'r Rheoliadau Ariannol wedi'u diweddaru.

## Mae'r Cyngor wedi cyflwyno nifer o newidiadau i fynd i'r afael â'r gwendidau a'r methiannau o ran llywodraethu a nodir yn yr adroddiad hwn

72 Mae'r Cyngor wedi myfyrio'n ofalus ar y digwyddiadau a arweiniodd at yr anawsterau ariannol diweddar. Mae'n cydnabod bod nifer o faterion a ddigwyddodd ar yr un pryd ac a arweiniodd at y gorwariant a'r orddibyniaeth ar gronfeydd wrth gefn. Mae'r materion hyn yn cynnwys:

- diffyg Pwyllgor Adnoddau Dynol a fyddai wedi bod â mwy o rôl o ran rheoli a goruchwylio'r Clerc blaenorol;
- peidio â sicrhau bod gan y Clerc blaenorol y sgiliau rheolaeth ariannol priodol i ddiwallu anghenion y Cyngor;
- hyfforddiant annigonol ar gael i'r Clerc blaenorol a Chynghorwyr ar reolaeth ariannol a llywodraethu;
- absenoldeb, am resymau personol yn 2018-19, Cynghorydd oedd â phrofiad sylweddol o gyfrifyddu ac a oedd wedi gallu neilltuo mwy o amser yn flaenorol i gynorthwyo'r Clerc blaenorol i gyflawni'r agweddau ariannol ar y rôl;
- bod heb Glerc parhaol ar adeg hollbwysig i'r Cyngor (rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2018) a'r amser ymgynefino ar gyfer y Clerc newydd (o fis Gorffennaf 2018 ymlaen); a
- thensiynau rhwng aelodau'r Cyngor a oedd yn cyfyngu ar ei allu i dynnu yn yr un cyfeiriad.

73 Cyflwynwyd adroddiad manwl i’r Cyngor gan y Pwyllgor Cyllid (ar 19 Rhagfyr 2018), a oedd yn nodi cyfres o argymhellion a oedd wedi’u bwriadu i wella trosolwg ariannol a gwella’r trefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau i’r Cyngor. Mae’r canlynol yn rhoi crynodeb o’r argymhellion hyn:

- Yr Is-bwyllgor Cyllid i graffu ar yr holl Adroddiadau Archwilio yn y dyfodol.
- Atal y trefniadau penagored presennol i asesu ceisiadau am grantiau a phrosiectau nes rhoddir gwybod fel arall a disodli’r rhain â system chwemisol.
- Atal cysyniad ‘grantiau craidd’ dros dro a gofyn i dderbynyddion presennol gyflwyno ceisiadau am gyllid pellach.
- Arian a glustnodwyd i gael ei ryddhau dim ond ar ôl cwblhau gwaith penodedig, a hyd yn oed wedyn dim ond ar ôl cymeradwyaeth gan y Cyngor Llawn.
- Mai dim ond y Cyngor Llawn all awdurdodi gweithredoedd i symud arian rhwng cyfrifon banc y Cyngor.
- Y Cyngor i beidio â chymeradwyo prosiect na cham gweithredu nes bod y goblygiadau ariannol yn hysbys.

74 Hefyd, yn ddiweddar mae’r Clerc a’r Swyddog Cyllid Cyfrifol wedi dilyn y cwrs rhagarweiniol i’r rôl a gaiff ei redeg gan Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Mae’r Cyngor yn awr yn cefnogi’r Clerc hefyd i ennill cymhwyster sylfaen (CiLCA) ar gyfer swyddogion cynghorau lleol ac eraill sy’n gweithio gyda chynghorau lleol.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru